Clerc/Clerk: Anwen Jones
Cyfeiriad/Address: 10 Gorffwysfa, Dwyran, Ynys Mon, LL61 6YJ
Ffon/Tel: 07375781090
E-bost/E-mail: valleycommunitycouncil@gmail.com
Gwefan: www.cygor-cymuned-fali.cymru
Website: www.valley-community-council.wales

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Y Fali, gyda cyfarfod cyngor arferol yn dilyn yn syth

Minutes of Valley Community Council Annual Meeting and next ordinary council meeting

Cynhaliwyd am 7.00yh ar nos Fercher 20/05/2026

Held on 7.00pm, Wednesday 20/05/2026

Cafodd y cyfarfod ei gynnal mewn fformat hybrid yn Ysgol Gymuned y Fali, gan alluogi'r mynychwyr i gymryd rhan naill ai wyneb yn wyneb neu o bell trwy Microsoft Teams.

The meeting was held in a hybrid format at Ysgol Gymuned y Fali, allowing attendees to participate either in person or remotely via Microsoft Teams.

**Presennol**

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| G Browne MBE | E Jones |
| W Rogerson MBE | M Swaine Williams |
| C Z Tattersall | C Thornhill |
| N Tuck | A Walker |
| H Williams | S Williams |

**Present**

Councillors:

| | |
|---|---|
| G Browne MBE | E Jones |
| W Rogerson MBE | M Swaine Williams |
| C Z Tattersall | C Thornhill |
| N Tuck | A Walker |
| H Williams | S Williams |

**Hefyd yn bresennol**

Cynghorydd Sir G Jones
H Hughes, Cyfieithydd
A Jones Clerc

**Also present**

County Councillor G Jones
H Hughes, Translator
A Jones Clerk

Agorwyd y Cyfarfod Blynyddol gan yr Is-Gadeirydd, Cyng. G Browne MBE a llywodraethodd y trafodion hyd nes i etholiad y Cadeirydd gael ei gwblhau.

The Vice-Chair, Cllr G Browne MBE opened the AGM and presided over proceedings until the election of the chair had been concluded.

Rhoddodd pob aelod ganiatâd i recordio'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo gyda pharatoi'r cofnodion.

Permission was granted by all members to record the meeting in order to assist with the preparation of the minutes.

Nodwyd na chofnodwyd ymddiheuriadau ar ddechrau'r Cyfarfod Blynyddol Blynyddol, a'u bod wedi'u derbyn yn ffurfiol ar ddechrau'r Cyfarfod Cyffredin a ddilynodd.

It was noted that apologies were not recorded at the start of the AGM, and were formally received at the beginning of the Ordinary Meeting which followed.

1/2627 **Ethol Cadeirydd ar gyfer 2026/2027 a derbyn y Datganiad Derbyn Swydd**

Enwebwyd y Cynghorydd N Tuck gan y Cynghorydd W Rogerson MBE, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd A Walker.

**Election of Chair for 2026/2027 and receive the Declaration of Acceptance of Office**

Councillor N Tuck was nominated by Councillor W Rogerson MBE and seconded by Councillor A Walker.



Arwyddwyd / Signed: [signature]

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 17/06/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 43/2627 (cyfarfod 17/06/2026)
*Approval reference for these minutes: 43/2627 (meeting of 17/06/2026)*

Ni dderbyniwyd enwebiadau pellach.
**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd N. Tuck yn Gadeirydd.
Cytunwyd yn unfrydol.

Derbyniwyd y Datganiad Derbyn Swydd.

*Ar y pwynt hwn, cymerodd Cyng N Tuck y gadair.*

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu ffydd ynddo gan nodi ei bod yn anrhydedd gwasanaethu'r gymuned lle cafodd ei fagu a'i addysgu.

No further nominations were received.
**Resolved**: Councillor N. Tuck was elected as Chair.
Agreed unanimously.

The Declaration of Acceptance of Office was received.

*At this point, Cllr N Tuck took the Chair.*

The Chair thanked all members for their continued confidence and stated that it was an honour to serve the community in which he was raised and educated.

2/2627 **Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026/27 a derbyn y Datganiad Derbyn Swydd**

Enwebwyd y Cynghorydd G Browne MBE gan y Cynghorydd M Swaine Williams, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd E Jones

Ni dderbyniwyd enwebiadau pellach.

**Penderfynwyd**: ethol y Cynghorydd G Browne MBE yn Is-Gadeirydd.
Cytunwyd yn unfrydol.

Derbyniwyd y Datganiad Derbyn Swydd.

Nododd yr Is-gadeirydd ei fod ef a'r Cadeirydd yn cydweithio'n dda, a'i fod yn anrhydedd parhau yn y rôl. Diolchodd i'r aelodau.

**Election of Vice-Chair for 2026/2027 and receive the Declaration of Acceptance of Office**

Councillor G Browne MBE was nominated by Councillor M Swaine Willaims and seconded by Councillor E Jones

No further nominations were received.

**Resolved**: Councillor G Browne MBE was elected Vice-Chair.
Agreed unanimously.

The Declaration of Acceptance of Office was received.

The Vice Chair noted that he and the Chair worked well together and expressed that it was an honour to continue in the role. He thanked the members.

3/2627 **Penodi Pwyllgorau**

**Appointment of Committees**

1. **Pwyllgor Cyllid a Phersonel**

Ystyriodd y Cyngor benodi aelodau i'r Pwyllgor Cyllid a Phersonél.

**Penderfynwyd**: Penodwyd y Cyng. C Thornhill i lenwi'r sedd wag.
Cyn/Eil: MSW/GB
Cytunwyd yn unfrydol.

**Penderfynwyd:** Penodi'r aelodau presennol sy'n weddill a'r Cynghorydd newydd ei ethol i'r Pwyllgor Cyllid a Phersonél, fel a ganlyn:

- Cynghorydd G Browne MBE
- Cynghorydd N Tuck
- Cynghorydd M Swaine Williams
- Cynghorydd H Williams
- Cynghorydd C Thornhill

Cyn/Eil: NT/EJ
Cytunwyd yn unfrydol.

**Finance and Personnel Committee**

The Council considered the appointment of members to the Finance and Personnel Committee.

**Resolved:** That Cllr C. Thornhill be appointed to the vacant seat.
Prop/Sec: MSW/GB
Agreed unanimously.

**Resolved:** To appoint the remaining existing members and the newly elected Councillor to the Finance and Personnel Committee, as follows:

- Councillor G Browne MBE
- Councillor N Tuck
- Councillor M Swaine Williams
- Councillor H Williams
- Councillor C Thornhill

Prop/Sec: NT/EJ
Agreed unanimously.

**Penderfynwyd**: Penodi'r Cyng G. Browne MBE yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Phersonél.
Cyn/Eil: MSW/HW
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved**: That Cllr G. Browne MBE be appointed as Chair of the Finance and Personnel Committee.
Prop/Sec: MSW/HW
Agreed unanimously.

2. **Pwyllgor Parciau**

Ystyriodd y Cyngor benodi aelodau i'r Pwyllgor Parciau.

**Penderfynwyd:** Penodi'r Cyng C Z Tattersall i lenwi'r sedd wag cyntaf.
Cyn/Eil: MSW/EJ
Cytunwyd yn unfrydol.

**Penderfynwyd:** Penodi'r Cyng A. Walker ar sail dros dro i lenwi'r ail sedd wag, yn amodol ar ystyriaeth bellach gan y Cyngor.
Cyn/Eil: MSW/GB
Cytunwyd yn unfrydol.

**Penderfynwyd**: Penodi'r aelodau canlynol i'r Pwyllgor Parciau, gyda Chynghorydd A. Walker yn gwasanaethu ar sail dros dro hyd nes y gwneir ystyriaeth bellach gan y Cyngor:

- Cynghorydd E Jones
- Cynghorydd N Tuck
- Cynghorydd M Swaine Williams
- Cynghorydd C Z Tattersall
- Cynghorydd A Walker

Cyn/Eil: HW/WR
Cytunwyd yn unfrydol.

**Penderfynwyd**: Penodi'r Cyng E. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Parciau
Cyn/Eil: MSW/GB
Cytunwyd yn unfrydol

**Parks Committee**

The Council considered the appointment of members to the Parks Committee.

**Resolved**: That Cllr C Z Tattersall be appointed to fill the first vacant seat.
Prop/Sec: MSW/EJ
Agreed unanimously.

**Resolved:** That Cllr A. Walker be appointed on a temporary basis to fill the second vacant seat, pending further consideration by the Council.
Prop/Sec: MSW/GB
Agreed unanimously.

**Resolved:** To appoint the following members to the Parks Committee, with Cllr A. Walker serving on a temporary basis pending further review by the Council:

- Councillor E Jones
- Councillor N Tuck
- Councillor M Swaine Williams
- Councillor C Z Tattersall
- Councillor A Walker

Prop/Sec: HW/WR
Agreed unanimously.

**Resolved:** That Cllr E. Jones be appointed as Chair of the Parks Committee.
Prop/Sec: MSW/GB
Agreed unanimously.

3. **Pwyllgor Ynys Wen**

Ystyriodd y Cyngor benodi aelodau i'r Pwyllgor Ynys Wen.

**Penderfynwyd**: Penodi'r aelodau presennol i Bwyllgor Ynys Wen fel a ganlyn:

- Cynghorydd W Rogerson MBE
- Cynghorydd N Tuck
- Cynghorydd G Browne MBE
- Cynghorydd M Swaine Williams
- Cynghorydd A Walker

Cyn/Eil: MSW/EJ

**Ynys Wen Committee**

The Council considered the appointment of members to the Ynys Committee.

**Resolved:** To appoint the existing members to the Ynys Wen Committee, as follows:

- Councillor W Rogerson MBE
- Councillor N Tuck
- Councillor G Browne MBE
- Councillor M Swaine Williams
- Councillor A Walker

Prop/Sec: MSW/EJ

Cytunwyd yn unfrydol.

Agreed unanimously.

**Penderfynwyd:** Penodi'r Cyng W. Rogerson MBE yn Gadeirydd y Pwyllgor Ynys Wen
Cyn/Eil: MSW/AW
Cytunwyd yn unfrydol

**Resolved:** That Cllr W. Rogerson MBE be appointed Chair of the Ynys Wen Committee
Prop/Sec: MSW/AW
Agreed unanimously.

4/2627 **Penodi Cynrychiolwyr**

**Appointment of Representatives**

1. **Corff Llywodraethu Ysgol Gymuned y Fali**
**Penderfynwyd:** Penodi Cyng. A Walker yn gynrychiolydd ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gymuned y Fali.
Cyn/Eil: MSW/GB
Cytunwyd yn unfrydol

**Valley Community School Governing Body**
**Resolved:** That Cllr A. Walker be appointed as the Council's representative on the Governing Body of Ysgol Gymuned y Fali.
Prop/Sec: MSW/GB
Agreed unanimously.

2. **Pencampwr Iaith Gymraeg**
**Penderfynwyd:** Penodi Cyng. H Williams yn Bencampwr Iaith Gymraeg ar gyfer Cyngor Cymuned Y Fali.
Cyng/Eil: MSW/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

**Welsh Language Champion**
**Resolved:** That Cllr H. Williams be appointed as the Welsh Language Champion for Valley Community Council.
Prop/Sec: MSW/EJ
Agreed unanimously

3. **Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Ynys Môn**
**Penderfynwyd:** Penodi Cyng. N Tuck a Cyng. C Thornhill yn gynrychiolwyr ar Bwyllgor Ardal Ynys Môn.
Cyn/Eil: WR/AW
Cytunwyd yn unfrydol

Nodwyd bod croeso i unrhyw aelod fynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn gyda Un Llais Cymru.

**One Voice Wales – Anglesey Area Committee**
**Resolved**: That Cllr N. Tuck and Cllr. C. Thornhill be appointed as representatives on the Anglesey Area Committee.
Prop/Sec: WR/AW
Agreed unanimously.

It was noted that all members are welcome to attend meetings of this Committee with One Voice Wales.

4. **Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn**
**Penderfynwyd:** Penodi Cyng. G Browne a Cyng. A Walker yn gynrychiolwyr ar Fforwm Gyswllt Cynghorau Tref a Chymuned
Cyn/Eil: EJ/MSW
Cytunwyd yn unfrydol

**Anglesey Town and Community Council Forum**
**Resolved:** That Cllr G. Browne MBE and Cllr A. Walker be appointed as representatives on the Anglesey Town and Community Council Forum.
Prop/Sec: EJ/MSW
Agreed unanimously.

5. **Cynghrair Bro Llynnoedd**
**Penderfynwyd:** Penodi Cyng. C Thornhill yn gynrychiolydd ar Gynghrair Bro Llynnoedd
Cyn/Eil: NT/AW
Cytunwyd yn unfrydol

**Bro Llynnoedd Alliance**
**Resolved**: That Cllr C. Thornhill be appointed as a representative on the Bro Llynnoedd Alliance
Prop/Sec: NT/AW
Agreed unanimously

*Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd fod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi'i gau am 19:15, a dechreuodd Cyfarfod Cyffredin y Cyngor yn syth wedi hynny.*

*There being no further business, the AGM was closed at 19:15, and the Ordinary Meeting of the Council commenced immediately thereafter.*

5/2627 **Croeso a Sylwadau Agoriadol**

Nododd y Cadeirydd ei fod yn dymuno talu teyrnged i'r diweddar Gynghorydd Ken Taylor, yn dilyn y newyddion trist am ei farwolaeth sydyn,  a fu'n gwasanaethu'r Cyngor ers ei gyfethol ym Mehefin 2013 am bron i 14 mlynedd.

Cofiwyd ef fel aelod ymroddedig ac uchel ei barch, gyda barn eglur a pharodrwydd i siarad dros fudd y gymuned, yn enwedig ar faterion cyllid a chyfleusterau lleol. Bu'n gwasanaethu fel Is-gadeirydd (2018/19) ac fel Cadeirydd tan 2021, gan arwain y Cyngor drwy gyfnod heriol pandemig Covid-19.

Cydnabuwyd hefyd ei gefnogaeth gref i'r Gymraeg a'i ymrwymiad i'r gymuned leol. Mynegwyd diolch am ei gyfraniad sylweddol dros y blynyddoedd, a chydymdeimlwyd yn ddiffuant â'i deulu a'i ffrindiau.

Talodd y Cynghorydd Gwilym Jones deyrnged hefyd i'r diweddar Gyng.Ken Taylor, gan nodi ei fod wedi ei adnabod ers blynyddoedd ac wedi cydweithio'n agos ag ef ers eu hethol i gyd-gynrychioli ward Bro Llynnoedd yn 2022.

Cofiwyd ef fel unigolyn â barn gadarn, proffesiynol a theg, a oedd yn uchel ei barch gan gydweithwyr. Nodwyd ei gyfraniad gwerthfawr i waith y Cyngor Sir, yn enwedig fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, a'i ymrwymiad cryf i'w gymuned ac i Fali.

Mynegodd ei dristwch personol wrth golli cyfaill a chydweithiwr.

Talodd y Cynghorydd Mavis Swaine Williams deyrnged i'r diwedd Cynghorydd Ken Taylor, gan ategu'r sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Gwilym Jones. Nododd ei bod wedi adnabod Ken ers nifer o flynyddoedd drwy eu gwaith ar y Cyngor. Fel Cynghorydd a ffrind, bydd colled ar ei ôl.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Aelodau am eu negeseuon o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth ei nain.

**Welcome and Opening Remarks**

The Chair noted that he wished to pay tribute to the late Councillor Ken Taylor, following the sad news of his sudden passing, who had served the Council since his co-option in June 2013 for almost 14 years.

He was remembered as a dedicated and highly respected member, with clear views and a willingness to speak up in the interests of the community, particularly on matters relating to finance and local facilities. He served as Vice-Chair (2018/19) and as Chair until 2021, leading the Council through the challenging period of the Covid-19 pandemic.

His strong support for the Welsh language and his commitment to the local community were also recognised. Thanks were expressed for his significant contribution over the years, and sincere condolences were extended to his family and friends.

Councillor Gwilym Jones also spoke in tribute to the late Councillor Ken Taylor, noting that he had known him for many years and had worked closely with him since they were elected to jointly represent the Bro Llynnoedd ward in 2022.

He was remembered as an individual with strong views, who was professional and fair, and was held in high regard by colleagues. His valuable contribution to the work of the County Council was noted, particularly as Chair of the Planning Committee, as well as his strong commitment to his community and to Valley.

He expressed his personal sadness at the loss of a friend and colleague.

Councillor Mavis Swaine Williams also paid tribute to Councillor Ken Taylor, endorsing the comments made by the Chair and Councillor Gwilym Jones. She noted that she had known Ken for a number of years through their work on the Council. He will be greatly missed as both a Councillor and a friend.

The Chair expressed his thanks to Members for their messages of sympathy following the passing of his grandmother.



Arwyddwyd / Signed:

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 17/06/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 43/2627 (cyfarfod 17/06/2026)
*Approval reference for these minutes: 43/2627 (meeting of 17/06/2026)*

Cafodd y Cyngor wybod hefyd am farwolaeth sydyn Sandy (Sandra) Roberts o Ffordd Gorad. Etholwyd Sandy i'r Cyngor Cymuned yn 2010 a bu'n gwasanaethu fel Cadeirydd yn 2013/14.

The Council was also made aware of the sudden passing of Sandy (Sandra) Roberts of Ffordd Gorad. Sandy was elected to the Community Council in 2010 and served as Chair in 2013/14.

Dros nifer o flynyddoedd, bu'n allweddol wrth godi arian i elusennau a sefydliadau lleol drwy nosweithiau cwis wythnosol yng Ngwesty'r Bull, Y Fali. Ar ôl gadael y Cyngor, parhaodd i gefnogi'r gymuned, a chydnabuwyd ei chyfraniad drwy ddyfarnu Gwobr Pencampwr Cymuned iddi.

Over a number of years, she was instrumental in raising funds for local charities and organisations through weekly quiz nights at the Bull Hotel, Valley. After leaving the Council, she continued to support the community, and her contribution was recognised through the award of a Community Champion Award.

Estynnodd y Cyngor ei gydymdeimlad dwys â theulu a ffrindiau Sandy.

The Council extended its deepest sympathy to the family and friends of Sandy.

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Aelod Lleol, y Cynghorydd Gwilym Jones, ar ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ar gyfer 2026/27.

The Chair extended his congratulations to Local Member Cllr Gwilym Jones on his election as Chair of Llanfair yn Neubwll Community Council for 2026/27.

6/2627 **Derbyn ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr C. Carter ac A. Williams.
Cyn/Eil: NT/WR

**To accept apologies**

Apologies accepted by Councillors C. Carter and A. Williams
Prop/Sec: NT/WR

7/2627 **Derbyn Datganiadau o Fuddiant Personol a Rhagfarnol**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhagfarnol.

**To Receive Declarations of Personal and Prejudicial Interest**

No personal or prejudicial interests were declared.

8/2627 **Caniatau i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda neu ofyn cwestiwn (3 munud)**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**To allow the public to speak on any item on the agenda or ask questions (3 minutes)**

No members of the public were present.

9/2627 **Diweddariad SCCH**

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon gwahoddiad i'r Heddlu er mwyn trafod pa gamau a chynlluniau sydd ganddynt ar gyfer y cyfnod dros yr haf.

Nododd y Cadeirydd, er gwybodaeth, ei fod ef, Cadeirydd y Pwyllgor Parciau a'r Clerc yn bwriadu trefnu cyfarfod gyda Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir i drafod y posibilrwydd o ddarparu gwasanaeth ym Mharc Mwdi ar gyfer pobl ifanc lleol. Nodwyd y byddai gwahoddiad yn cael ei estyn i aelodau'r Cyngor i fynychu'r cyfarfod.

**PCSO Update**

The Chair suggested that an invitation should be sent to the PCSO in order to discuss what actions and plans they have in place for the summer period.

The Chair noted, for information, that he, the Chair of the Parks Committee and the Clerk intend to arrange a meeting with the County Council's Youth Service to discuss the possibility of providing a service at Parc Mwd for local young people. It was noted that an invitation would be extended to members of the Council to attend the meeting.



Arwyddwyd / Signed:

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 17/06/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 43/2627 (cyfarfod 17/06/2026)
*Approval reference for these minutes: 43/2627 (meeting of 17/06/2026)*

10/2627 **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod 15/04/2026**
**Penderfynwyd**: i dderbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.
Cyn/Eil: MSW/CT
Cytunwyd yn unfrydol

**To confirm minutes of the meeting 15/04/2026**
**Resolved:** to accept the minutes as a true and accurate record.
Prop/Sec: MSW/CT
Agreed unanimously

11/2627 **Trafod materion yn codi o'r cofnodion**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**To discuss matters arising from the minutes**
There were no matters arising from the minutes.

12/2627 **National Grid – Cronfa Cymunedol Penrhos**
Atgoffodd y Clerc yr aelodau fod arolwg National Grid yn cau ar 20 Mai 2026.

Yn dilyn sesiwn galw mewn ddiweddar ym Mharc Mwd, a gynhaliwyd gan National Grid, penderfynwyd cysylltu â Thîm Cysylltiadau Cymunedol Is-orsaf Penrhos i wneud ymholiadau ynghylch amserlen Cronfa Gymunedol Penrhos. Penderfynwyd hefyd trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau'r Cyngor i drafod rhestr o gynigion ar gyfer y gronfa.

**National Grid – Penrhos Community Fund**
The Clerk reminded members that the National Grid survey closes on 20 May 2026.

Following a recent drop-in session at Parc Mwd, held by National Grid, it was agreed to contact the Penrhos Substation Community Liaison Team to make enquiries regarding the timetable for the Penrhos Community Fund. It was also agreed to arrange a face-to-face meeting for Council members to discuss a list of proposals for the fund.

13/2627 **Balchder yn Eich Cymuned – Dyraniad Cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned**

*Ymunodd y Cyng. S. Williams â'r cyfarfod am 19:39.*

Trafodwyd rhestr o syniadau ar gyfer grant 'Balchder yn Eich Cymuned', a gyflwynwyd gan aelodau yn dilyn cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar 9 Mai 2026.

Atgoffwyd yr aelodau fod cyfanswm y grant yn £23,850.87, a bod angen cyflwyno rhestr derfynol o'r syniadau i'r Cyngor Sir erbyn 30 Mehefin 2026.

Cytunwyd cyfuno cyfarfodydd anffurfiol i drafod Cronfa Gymunedol Penrhos a Chronfa Balchder yn Eich Cymuned er mwyn casglu'r holl gynigion a phrisiau, a chyflwyno rhestr i gyfarfod mis Mehefin er mwyn penderfynu ar restr derfynol i'w chyflwyno i'r Cyngor Sir.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y bydd disgwyl iddynt ddarparu dyfynbrisiau ar gyfer y prosiectau y maent yn dymuno eu cynnwys ar y rhestr.

Gofynnwyd i'r Clerc rannu dyddiad ar gyfer cyfarfod i drafod syniadau'r prosiectau grant, a

**Pride in Your Community –Capital Allocation for Town and Community Councils**

*Councillor S. Williams joined the meeting at 19:39.*

A list of ideas for the 'Pride in Your Community' grant was discussed, submitted by members following an informal meeting held on 9 May 2026.

Members were reminded that the total amount of the grant is £23,850.87, and that a final list of ideas must be submitted to the County Council by 30 June 2026.

It was agreed to combine informal meetings to discuss the Penrhos Community Fund and the Pride in Your Community Fund in order to gather all proposals and costings, and to present a list to the June meeting with a view to agreeing a final list for submission to the County Council.

Members were advised that they would be expected to provide quotations for the projects they wish to include on the list.

The Clerk was requested to circulate a date for a meeting to discuss grant project ideas, and to



Arwyddwyd / Signed: [signature]
Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 17/06/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 43/2627 (cyfarfod 17/06/2026)
*Approval reference for these minutes: 43/2627 (meeting of 17/06/2026)*

chylchredeg y rhestr o syniadau a gasglwyd hyd yn hyn ar gyfer Cronfa Balchder yn Eich Cymuned.

Cynigiodd y Cynghorydd G. Jones wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir ynghylch y posibilrwydd o ymestyn y dyddiad cyflwyno syniadau.

Cynigiodd y Cynghorydd E. Jones gymryd cyfrifoldeb am y gwaith prisio ar gyfer y cynnig gan y diweddar Gynghorydd Ken Taylor i adnewyddu'r arwydd gwybodaeth ger y fainc milleniwm.

circulate the list of ideas gathered to date for the Pride in Your Community Fund.

Cllr G. Jones offered to make enquiries with the County Council regarding the possibility of extending the submission deadline.

Cllr E. Jones offered to take responsibility for obtaining costings for the proposal by the late Cllr Ken Taylor to refurbish the information board near the millennium bench.

14/2627 **Lansio Adduned Un Llais Cymru ar Cwrteisi a Parch**

Cyflwynwyd Addewid Cwrteisi a Pharch Un Llais Cymru i'r Cyngor, a nodwyd bod y wybodaeth wedi'i rhannu ymlaen llaw.

Nodwyd y byddai penderfyniad i'w fabwysiadu yn fater i'r Cyngor, ond oherwydd bod gwaith ar bolisïau'r Cyngor yn parhau, awgrymodd y Cadeirydd y dylid gohirio'r mater.

Cytunwyd i'w ystyried eto ar adeg briodol.

**Launch of the One Voice Wales Civility and Respect Pledge**

The Civility and Respect Pledge by One Voice Wales was presented to the Council, and it was noted that the information had been circulated in advance.

It was noted that the decision to adopt the pledge rests with the Council; however, as work on Council policies is ongoing, the Chair suggested that the matter be deferred.

It was agreed to reconsider the matter at an appropriate time.

15/2627 **Adolygu Cynnydd yn erbyn Nodau ac Amcanion y Cyngor**

Cyflwynodd y Clerc yr adolygiad ar gyfer 2025/26 yn erbyn Nodau ac Amcanion 2024/25, gyda'r adroddiad wedi'i rannu gyda'r aelodau ymlaen llaw. Nodwyd bod colofn cynnydd wedi'i chynnwys ar gyfer 2025/26, yn seiliedig ar y nodau presennol.

Nodwyd bod angen i'r Cyngor adolygu a chadarnhau'r cynnydd, ac amlygwyd yr angen i ddatblygu Nodau ac Amcanion newydd ar gyfer 2026/27, gan ddefnyddio data a gasglwyd drwy weithgareddau ymgysylltu cymunedol.

**Penderfynwyd** derbyn yr adolygiad 2025/26 a chau Nodau ac Amcanion 2024/25, fel y'u cyflwynwyd.

Cyn/Eil: MSW/WR
Cytunwyd yn unfrydol

**Review of Progress Against Council Aims and Objectives**

The Clerk presented the 2025/26 review against the 2024/25 Aims and Objectives, with the report having been circulated to members in advance. It was noted that a progress column for 2025/26 had been included, based on the current aims.

It was noted that the Council is required to review and confirm the progress, and the need to develop new Aims and Objectives for 2026/27 was highlighted, using data gathered through community engagement activities.

**Resolved:** to accept the review for 2025/26and close the 2024/25 Aims and Objectives as presented.

Prop/Sec: MSW/WR
Agreed unanimously

16/2627 **Grwp Gweithio – Adolygu a Mabwysiadu Cylch Gorchwyl**

Nodwyd mai dim ond 21 diwrnod sydd i ymateb i ymgynghoriadau cynllunio, ac nad yw hyn bob amser yn cyd-fynd ag amserlen cyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Cytunwyd i ychwanegu cymal i Gylch Gorchwyl y Grŵp Gweithio i alluogi trafod ceisiadau cynllunio pan fo angen rhwng cyfarfodydd, gyda phŵer dirprwyedig i gyflwyno ymatebion i'r Cyngor Sir, a'u hadrodd i'r Cyngor Llawn dilynol.

**Penderfynwyd**: Diwygio a mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl i gynnwys cymal sy'n galluogi'r Grŵp Gweithio i ystyried ac ymateb i geisiadau cynllunio rhwng cyfarfodydd y Cyngor Llawn, gyda phŵer dirprwyedig i gyflwyno ymatebion i'r Cyngor Sir, a bod pob penderfyniad yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Cyn/Eil: CT/CZT
Cytunwyd yn unfrydol

**Working Group – Review and Adoption of Terms of Reference**

It was noted that only 21 days are available to respond to planning consultations, which does not always align with the schedule of Full Council meetings.

It was agreed to include an additional clause within the Working Group's Terms of Reference to enable the consideration of planning applications between meetings, with delegated powers to submit responses to the County Council. Any such decisions would be reported to the next meeting of the Full Council.

**Resolved:** to amend and adopt the Terms of Reference to include a clause enabling the Working Group to consider and respond to planning applications between Full Council meetings, with delegated authority to submit responses to the County Council, and to report all decisions to the next meeting of the Full Council.

Prop/Sec: CT/CZT
Agreed unanimously.

17/2627 **Adolygu a Mabwysiadu Polisïau'r Cyngor**
Rhannwyd copïau o'r ddau bolisi gyda'r aelodau ymlaen llaw, yn dilyn eu hadolygu mewn Grŵp Gweithio ar 3 Mawrth 2026.

**Penderfynwyd:** cymeradwyo a mabwysiadu'r polisiau canlynol:

1. Polisi Gosod
2. Polisi Rhoddion

Cyn/Eil: GB/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

**Review and Adoption of Council Policies:**
Copies of both policies were shared with members in advance, following their review by the Working Group on 3 March 2026.

**Resolved:** to approve and adopt the following policies:

1. Lettings Policy
2. Donations Policy

Prop/Sec: GB/EJ
Agreed unanimously

18/2627 **Nodi gwerthusiad y Clerc wedi'i gwblhau**
Nodwyd bod gwerthusiad y Clerc wedi'i gynnal a'i gwblhau gan yr Is-Gadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei gwaith dros y saith mis diwethaf, ac diolchodd i'r Is-Gadeirydd am gynnal y gwerthusiad.

**To note Clerk's appraisal completed**
It was noted that the Clerk's appraisal had been carried out and completed by the Vice-Chair.

The Chair thanked the Clerk for her work over the past seven months, and also thanked the Vice-Chair for undertaking the appraisal.



Arwyddwyd / Signed:

Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 17/06/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 43/2627 (cyfarfod 17/06/2026)
*Approval reference for these minutes: 43/2627 (meeting of 17/06/2026)*

19/2627 **Adolygiad o Ddyfynbrisiau Yswiriant a'r Adnewyddiad ar gyfer 2026/27**

Nododd y Clerc fod polisi yswiriant presennol y Cyngor yn dod i ben ar 31 Mai 2026. Rhannwyd dyfynbrisiau gyda'r aelodau ymlaen llaw.

Cyflwynwyd cymhariaeth o'r opsiynau a dderbyniwyd, gan gynnwys y darparwr presennol, Clear Councils, a darparwr arall. Nodwyd hefyd fod y Cyngor o bosibl yn dan-yswiriedig mewn rhai meysydd, a bod opsiynau ar gyfer lefelau uwch o yswiriant wedi'u hystyried.

Trafodwyd y gwahanol opsiynau, gan gynnwys dau gynnig gan Zurich Insurance.

**Penderfynwyd** ymrwymo i Gytundeb Tymor Hir 3 blynedd (LTA) gyda Zurich am bremiwm blynyddol o £2,778.46.

Cyn/Eil: GB/WR
Cytunwyd yn unfrydol

Nodwyd bod yr LTA yn sicrhau'r cyfraddau yswiriant am hyd y cytundeb, yn amodol ar newidiadau i werthoedd yswiriant, lefelau indemniad neu hanes hawliadau.

**Review of Insurance Quotations and Renewal for 2026/27**

The Clerk noted that the Council's current insurance policy is due to expire on 31 May 2026. Quotations had been circulated to members in advance.

A comparison of quotations was presented, including the current provider, Clear Councils, and an alternative provider. It was also noted that the Council may be underinsured in certain areas, and options for increased levels of cover had been considered.

The available options, including two quotations from Zurich Insurance, were discussed.

**Resolved**: to enter into a 3-year Long Term Agreement (LTA) with Zurich at an annual premium of £2,778.46.

Prop/Sec: GB/WR
Agreed unanimously

It was noted that the LTA secures the insurance rates for the duration of the agreement, subject to any changes in sums insured, indemnity levels or claims history.

20/2627 **Adnewyddu Aelodaeth SLCC (Society of Local Council Clerks) ac ULlC (Un Llais Cymru) ar gyfer 2026/2027**
**Penderfynwyd:** cymeradwyo adnewyddu aelodaeth fel a ganlyn:
Society of Local Council Clerks - £84.00
Un Llais Cymru -£536.00

Cyn Eil: NT/CT
Cytunwyd yn unfrydol

**Renewal of SLCC (Society of Local Council Clerks) and OVW (One Voice Wales) Membership for 2026/27**
**Resolved**: to approve the renewal of memberships for 2026/27 as follows:
Society of Local Council Clerks – £84.00
One Voice Wales – £536.00

Prop/Sec: NT/CT
Agreed unanimously.

21/2627 **Archwiliad Allanol 2024/25 – derbyn y Ffurflen Flynyddol ardystiedig a'r hysbysiad cwblhau archwiliad, a chymeradwyo'r Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad**

Derbyniwyd adroddiad ac archwiliad yr Archwilydd Allanol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, ynghyd â'r Ffurflen Flynyddol ardystiedig.

**External Audit 2024/25 – to receive the certified Annual Return and audit completion notice, and approve the Notice of Conclusion of Audit**

The External Auditor's report and audit opinion for the year ended 31 March 2025, together with the certified Annual Return, were received.

It was noted that the Council received an unqualified audit opinion, confirming that the

Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn barn archwilio diamod, gan gadarnhau bod y cyfrifon a threfniadau llywodraethu'r Cyngor yn briodol.

Tynnwyd sylw at nifer o argymhellion nad ydynt yn effeithio ar y farn archwilio, gan gynnwys gwelliannau i gofnodi cymeradwyaeth y cyfrifon, cyhoeddi cofrestrau, cydymffurfiaeth gwefan, a chysondeb cofnodion ariannol.

Nodwyd bod yn ofynnol i'r Clerc arddangos yr Hysbysiad am Gwblhau Archwiliad a'r Hawl i Arolygu'r Cofnod Blynyddol ar fwrdd hysbysu'r Cyngor ac ar wefan y Cyngor, yn unol â'r gofynion statudol.

**Penderfynwyd** derbyn y canlyniad archwilio a chymeradwyo'r Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad.
Cyn/Eil: GB/EJ
Cytunwyd yn unfrydol

accounts and governance arrangements are appropriate.

A number of recommendations were highlighted which do not affect the audit opinion, including improvements relating to recording the approval of accounts, publication of registers, website compliance, and consistency of financial records.

It was noted that the Clerk is required to display the Notice of Conclusion of Audit and the Right to Inspect the Annual Return on the Council's noticeboard and website in accordance with statutory requirements.

**Resolved:** to accept the audit outcome and approve the Notice of Conclusion of Audit.

Prop/Sec: GB/EJ
Agreed unanimously

22/2627 **Ffurflen Flynyddol 2025/26 – ystyried Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a chymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol**

Ystyriwyd Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2025/26.

Nodwyd yn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol fod y systemau ariannol a'r trefniadau llywodraethu yn gadarn, gyda sicrwydd bod y rheolaethau mewnol yn gweithredu'n briodol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a cymeradwyo Ffurflen Flynyddol (gan gynnwys y Datganiad Cyfrifeg) fel cofnod gwir a chywir, ac i'w gyflwyno i'r Archwilwyr Allanol.

Cyn/Eil: MSW/WR
Cytunwyd yn unfrydol

Llofnododd y Cadeirydd a'r Clerc y Ffurflen Flynyddol yn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei gwaith wrth gynnal ei archwiliad mewnol cyntaf.

**Annual Return 2025/26 – to consider the Internal Audit Report and approve the Annual Return**

The Internal Auditor's Report and the Annual Return for 2025/26 were considered.

It was noted within the Internal Auditor's report that the Council's financial systems and governance arrangements are sound, with assurance that internal controls are operating effectively.

**Resolved:** to approve the Internal Auditor's Report and approve the Annual Return (including the Accounting Statement) as a true and accurate record, and to submit these to the External Auditors.

Prop/Sec: MSW/WR
Agreed unanimously

The Chair and the Clerk signed the Annual Return at the meeting.

The Chair thanked the Clerk for her work in undertaking her first internal audit.



Arwyddwyd / Signed:



Cadeirydd / Chair

Dyddiad / Date: 17/06/2026

Cyfeirnod cymeradwyo ar gyfer y cofnodion hyn: 43/2627 (cyfarfod 17/06/2026)
*Approval reference for these minutes: 43/2627 (meeting of 17/06/2026)*

| 23/2627 | Materion Lleol | Local Matters |
|---|---|---|

1\. **Parc Mwd – adroddiad, ystyriaeth ac unrhyw argymhellion**

**Adroddiad Parc Mwd**
Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Parciau, y Cynghorydd E. Jones.

Nododd yr aelodau fod rhagor o achosion o fandaliaeth wedi digwydd ym Mharc Mwd, gan gynnwys:

- Difrod i'r fainc yn ardal y triongl, sydd wedi'i thrwsio dros dro
- Difrod i glo giât y toiled, sydd bellach wedi'i ddisodli
- Adroddiad o ymgais i dorri i mewn i garej y clwb pêl-droed, bydd y clwb yn adrodd i'r heddlu yn uniongyrchol.

Adroddwyd hefyd bod:

